

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne ar
Nos Lun 9fed o Ionawr, 2017 am 7.30 y.h.**

Presennol:**Cyng. Sh Edwards (Cadeirydd)****Cyng. T.A.G. Davies****Cyng. J. George****Cyng. J.J. Powell****Cyng. A. Evans****Cyng. E. Lewis****Cyng. L.L. Owen****Cyng. H.M. Evans****Cyng. C. Lloyd-Morgan****Cyng. R. Jones****Ymddiheuriadau****Cyng. B. Jenkins****Materion Personol**

Dim i'w gofnodi

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 5ed Rhagfyr, 2016 fel cofnod cywir. Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. Elen Lewis.

Materion yn Codi o'r Cofnodion**Asesiad Risg ac Asedau**

Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn

Yn ddiweddar mae'r arogl carthffosiaeth ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn wedi gwella ond mae dal yr angen i gadw llygad ar y sefyllfa.

Sefyllfa Band Llydan o fewn yr Ardal

Adroddodd y Clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad gyda Martin Jones, Rheolwr Prosiect Cymru gyda BT sydd ar gael i fynychu cyfarfod gyda'r Cyngor Bro. Derbyniwyd hefyd wybodaeth wrth Mr. Jones am amcan amseri ar gyfer derbyn band eang cyflym o fewn yr ardal. Gobeithir bydd rhai trigolion yn medru derbyn y gwasanaeth erbyn Mis Ebrill 2017 ond er bod y gwasanaeth i'w ledaeni nid oes amserlen bendant ar gyfer manau eraill o fewn y Gymuned. Deallir hefyd na fydd rhai tai yn derbyn y gwasanaeth band eang cyflym o gwbl gan, er eu bod yn derbyn gwasanaeth o'r Cabinet sy'n rhoi band eang cyflym mae'r eiddo yn rhy bell o'r cabinet i dderbyn gwasanaeth cyflym.

Cytunwyd i wahodd Martin Jones i'r cyfarfod nesaf a hefyd i ddiweddarau Elin Jones o'r ymateb diweddar yma a dderbyniwyd gan Mr. Jones.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir**Dŵr ger y Gors**

Er y derbyniwyd gwybodaeth o'r Cyngor Sir bod arian wedi clustnodi ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth pellach wrth y Cyngor Sir.

Gweithred: y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ddilyn lan.

Ffos o Brenan i Lwynbrain

Adroddwyd fod y Cyngor Sir wedi cwblhau'r gwaith ar y ffos.

Safle We

Y safle we yn weithredol yn awr.

Rhiw Dolgwybedig

Dim manylion pellach ond yr eitem i barhau ar yr agenda gyda'r Clerc i gysylltu ymhellach i weld beth yw'r amserlen. Y ffordd yn gwaethygu gyda'r angen i sicrhau bod y draeniau yn cael eu gwaghaus ac yna ail-wynebu'r ffordd.

Maes y Felin, Llanafan

Derbyniwyd wybodaeth wrth June Blake o Dai Ceredigion yn nodi bod perchnogion y cerbydau dan sylw wedi cael rhybudd i waredu'r cerbydau o'r lleoliad pe na fyddent gyda threth car ac yswiriant.

Derbyniwyd ymateb hefyd wrth Heddwas Chris Tipper yn cyfeirio ei fod wedi cysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion am waredu'r cerbydau ond gan fod Maes y Felin yn dir preifat nid oedd awdurdodaeth gan y Cyngor Sir i weithredu. Cyfeiriodd bod angen rhoi gwybod i'r DVLA pe byddid yn ymwybodol am gerbydau a ddefnyddir gyda SORN arnynt. Yn yr un modd y cynghorwyd gan Heddwas Tipper i gysylltu yn syth gyda'r Heddlu pe gwelir cerbyd mewn defnydd ar ffordd gyhoeddus heb dreth, yswiriant ac MOT.

Adroddwyd fod y broblem yn parhau gydag un o'r cerbydau erbyn nawr wedi tynnu rhif cofrestr i ffwrdd.

Cytunwyd i'r Clerc gysylltu ymhellach gyda Thai Ceredigion gan annog iddynt yn gadarn i ddatrys y broblem.

Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan

Dim manylion wrth y Cwmniau perthnasol.

Y Clerc i gysylltu ymhellach.

Materion Cyllidol

Ar 30ain o Ragfyr, 2016 roedd gan y Cyngor Bro mewn llaw £7,419.36 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £1,986.41 yn y Cyfrif Cadw.

Yn dilyn trafodaethau ac ystyried y daflen cyllideb am y flwyddyn bresennol cytunwyd i gadw swm y praesept am y flwyddyn 2017/18 yn £4,500. Cynigiwyd y swm gan John Powell ac eiliwyd gan Lewis Owen.

Derbyniwyd anfoneb wrth Swyddfa Archwilio Cymru am £231.75 am drefniadau i Archwilio Cyfrifon 2015/16 y Cyngor Bro . Cynigiwyd y taliad gan Cyng. Ceridwen Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. Alwyn Davies.

Ymgynghori ar amryw o newidiadau arfaethedig i'r terfynau cyflymder ar Ffordd Sirol yng Ngheredigion

Ni dderbyniwyd ymateb wrth y Cyngor Sir i e-bost y Cynghorydd R. Jones yn erfyn ar Swyddog y Cyngor Sir i ail-edrych ar y sefyllfa.

Drain ger Cwmseiri wedi gorlenwi ond hefyd wedi suddo i mewn i'r ffordd.

Y gwaith wedi gwblhau ar y drain uchod.

Draeniau angen sylw o fewn yr ardal.

Nifer o ddraeniau yn yr ardal angen ei gwaghau gan gynnwys y Grid wedi dod allan o'r Culvart yng Ngwm Rhydyfelin gan adael twll yn y ffordd. Roedd cyflwr y ffordd heibio'r Ysgol yn Llanafan at y ffordd B4343 yn ofnadwy yn ystod glaw trwm y diwrnodau diwethaf. Nid oedd unman i'r dwr glaw i ddraenio ac felly yn aros yn byllau mawr ar draws y ffordd.

Drain wedi blocio yn agos at benlon Sarnau.

Rhai o'r tyllau mawr yn y ffordd ar Rhiw Hari, Llanfihangel-y-Creuddyn wedi llenwi ond erbyn nawr mae yna dyllau eraill wedi ymddangos yn gwneud y ffordd yn anwastad, hefyd tyllau dipyn eu maint yn y ffordd wrth ymyl Blaenmagwr ac wrth ymyl Brynmagwr.

Arwyddion Ffordd

Yr angen i ail-osod arwydd cyfeirio at Bentref Llanafan ger Erw Lon uwchben y Pentref. Dim wedi gwneud am yr arwydd ac erbyn nawr mae'r arwydd wedi diflannu. Gweithred: y Clerc i ddilyn lan.

Arwydd Pentref Cnwch Coch

Cafwyd diweddariad gan y Cyngor Sir yn nodi eu bod yn disgwyl gwybodaeth wrth Carillion, prif gcontractwr gyda BT o bwy ar ran BT fyddai'n gyfrifol am adleoli polyn BT mewn lleoliad na fydd yn amharu ar welededd arwydd pentref Cnwch Coch.

Ffordd yn Erydu

Adroddwyd fod sylw wedi rhoi gan y Cyngor Sir i'r ffordd sy'n erygu o Bentref Llanafan tuag at Brynafan, uwchben y tro cyntaf wrth y goedwig ac hefyd ymyl y ffordd ar y chwith o Brynafan tuag at Pencwmlydan.

Roedd sefyllfa'r Ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant yn parhau gan fod yn erydu yn ddifrifol wrth ymyl Cwmagwr.

Gweithred: Dilyn lan ar y sefyllfa.

Bont ger Glanyrafon, Llanfihangel-y-Creuddyn

Dim wedi gwneud i'r cwrp sy'n rhydd ar y bont sydd angen sylw.

Gweithred: Dilyn lan ar y sefyllfa.

Cario Cinio Ysgol o Ysgol Llanilar i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn

Ni dderbyniwyd ymateb i'r ymholiad pe na fyddai'r cinio yn medru cyrraedd Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn oherwydd cyflwr y ffordd beth fyddai'r sefyllfa o ran cinio i'r disgyblion.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir Ceredigion.

Coed Ffordd Uchaf Llanafan

Adroddodd y Cyng. Lewis Owen y bydd yn cynnal cyfarfod safle gyda Rheolwr IBERS yn ystod yr wythnos.

GOHEBIAETH

Taflen gan Lywodraeth Cymru "A ydych wedi meddwl am ddod yn gynghorydd tref neu gymuned" i'w dosbarthu yn y Gymuned leol.

Manylion gan Gyngor Sir Ceredigion y bydd ffordd drwy Cnwch Coch ar gau o 7.00 y bore ar y 27ain o Fawrth hyd 5.00 y prynhawn ar y 29ain Mawrth ar gyfer BT wneud gwaith o osod dyctiau.

Gohebiaeth wrth Y Swyddfa Bost yn nodi nad ydyw wedi bod yn bosibl i adfer gwasanaeth addas y Swyddfa Bost yn Cnwch Coch yn dilyn ymddeoliad postfeistres y Pentref ym mis Awst 2015 ac felly bydd y Gwasanaeth yn parhau ar gau dros dro ond pe byddai newidiadau sylweddol yn y Pentref byddid yn ail edrych ar y sefyllfa.

UNRHYW FATER ARALL

Adroddwyd fod angen gwaith wedi gwneud ar y draeniau o'r Terrace, Cnwch Coch i Rhydyfagwyr. Profa wedi tyfu dros y draeniau ac yn ei tro mae'r dwr glaw yn llifo ar ymyl y ffordd yn hytrach na draenio i ffwrdd, felly mae angen glanhau ymyl y ffordd gan waredu'r porfa o'r draeniau.

Adroddwyd fod angen torri coed y gwrych ger Cwmnewidion Isaf sy'n ymestyn allan i'r ffordd.

Arogl Carthffosiaeth yn Llanafan

Cyfeiriwyd y bu arogl cryf o garthffosiaeth ym Mhentref Llanafan ar ddydd Gŵyl San Steffan. Gan fod system garthffosiaeth newydd yn weithredol yn Llanafan erbyn nawr ni ddylai'r arogl fod yn bodoli er y deallir nad yw pob tŷ wedi ymrwymo i gysylltu gyda'r system garthffosiaeth.

Gweithred: y Clerc i dynnu sylw Adran yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ceredigion at y sefyllfa a fu.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 20fed Chwefror, 2017 am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne.